SCOTT

# Grand Pavilion, Porthcawl

Cylchlythyr Mis Gorffennaf




**Mae'r gwaith yn mynd yn dda gyda'r sylfeini bron â'u cwblhau wrth baratoi ar gyfer gosod y gwaith dur sydd i fod i ddechrau mis Awst. Mae siafft y lifft arlwyo wedi'i chwblhau, a gellir ei gweld ar y drychiad Dwyreiniol uwchben y llinell hysbysebu.**

Mae'r gwaith o ysgaru'r ffasâd blaen, a'r awditoriwm bron â'u cwblhau. Mae'r gwaith dymchwel mecanyddol yn symud ymlaen yn dda, gyda'r drychiad Dwyreiniol bron â'i gwblhau a'r drychiad Gorllewinol wedi dechrau. Rydym yn monitro'r gwaith hwn yn agos ac yn cynnal gwiriadau fertigedd a symudiad yn ystod y gwaith dymchwel.

ydym wedi cwblhau'r cysylltiadau draenio allfa i brif garthffosydd Dŵr Cymru, ar Mary Street ac Esplanade Avenue. Mae'r gwaith hwn wedi'i wneud yn gynharach na'r hyn a drefnwyd, er mwyn sicrhau bod ein gwaith ar y briffordd yn cael ei gwblhau.

Bydd gosod y craen tŵr, a fydd yn gwasanaethu'r gweithgareddau adeiladu, yn garreg filltir bwysig. Mae hyn wedi'i drefnu ar gyfer dechrau mis Awst

Mae'r adeilad presennol yn parhau i beri llawer o heriau i dîm y prosiect, ac mae'r heriau hyn yn cael eu datrys yn ofalus. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r tîm cadwraeth, sy'n rhoi cymorth mawr.


Cynllun Cadw'r Ffasâd


Gwiriadau fertigol ar waith


Gwaith gwahanu wedi dechrau ar slab to'r Cysgodfan Dwyreiniol

**Croesawodd Aelod Cabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr dros Adfywio a Thai, y Cynghorydd Colin Davies, aelodau o Gyngor Tref Porthcawl yn ddiweddar ar gyfer ymweliad â'r safle i weld y cynnydd cyffrous sydd yn cael ei wneud ar adnewyddu Pafiliwn y Grand.**

Mae swyddogion o dîm adfywio'r cyngor a'r contractwyr, Andrew Scott Ltd, wedi cyfarfod â thrigolion Pavilion Court mewn bore coffi i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau. Rhoddodd y sesiwn anffurfiol gyfle i'r trigolion glywed am gynnydd y gwaith a gofyn cwestiynau wrth i'r gwaith adnewyddu barhau.






SCOTT

# Grand Pavilion, Porthcawl

## Cylchlythyr Mis Gorffennaf



Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND County Borough Council

### Diweddariad Gwerth Cymdeithasol Andrew Scott Ltd

**Yn ddiweddar, ymwelwyd ag Ysgol Gyfun Porthcawl ar y cyd â Gyrfa Cymru i ymgysylltu â disgyblion Blwyddyn 8 ac arddangos gyrfaoedd yn ein diwydiant.**

Dechreuodd y diwrnod gyda 'Whose Job Is It Anyway?' – sesiwn banel hwyliog a rhyngweithiol ar ffurf sioe gêm, lle'r oedd disgyblion yn gofyn cwestiynau i ddyfalu swyddi a rolau aelodau'r panel, sef Amanda a Rhian o'n tîm Gwerth Cymdeithasol.

Dilynwyd hyn gan ddigwyddiad gyrfaoedd gyda disgyblion Blwyddyn 8 a'r Chweched Dosbarth, lle buom yn trafod gwahanol lwybrau gyrfa ac yn rhannu gwybodaeth am brosiect Pafiliwn y Grand, sydd ar waith ar hyn o bryd ac yn lleol i'r ysgol.

Fe wnaethom hefyd sicrhau bod ein safle gwaith ar gael ar gyfer ras 10km Porthcawl, er mwyn cefnogi cydlynu'r digwyddiad. Da iawn i bawb a gymerodd ran!



### Gŵyl Seascape yn gwneud argraff fawr

awen

Cafodd trydydd Gŵyl Seascape Awen effaith fawr ym Mhorthcawl yn ddiweddar, gan ddod â miloedd o bobl ynghyd i ddathlu cerddoriaeth fyw a chelfyddydau creadigol awyr agored, tra bod y Pafiliwn y Grand ar gau ar gyfer gwaith ailddatblygu.

Cynhaliwyd y digwyddiad dros ddau ddiwrnod ar ddiwedd mis Mai, ac roedd yn cynnwys rhaglen amrywiol yn cynnwys cerddoriaeth fyw, gweithdai crefft, gosodiad dŵr rhyngweithiol, octopws LED anferth a syfrdanol yn crwydro o gwmpas, perfformiadau gan Ballet Cymru a Hijinx Theatre, a sioe syrcas awyr.

Rydym yn ddiolchgar am gefnogaeth ein partneriaid – Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Chyngor Celfyddydau Cymru – ac i Codi, sefydliad dielw arall o Gymru, am eu nawdd hael. Diolch i'r gymuned a ymunodd â ni ac i'r busnesau lleol a fu'n rhan o'n Llwybr Creaduriaid y Môr ac a gymerodd ran yn y penwythnos.








